## HYSBYSIAD

# Gweithiwr Cynhaliaeth, Parhaol (rhan-amser 56% clla)

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Dyma gyfle cyffrous a heriol i gyfrannu fel aelod pwysig o dîm bywiog a brwdfrydig iawn, yn gweithio at hyrwyddo proffil a chyflawniadau o un o gyrchfannau mwyaf eiconig Cymru. Mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wir yn gwneud gwahaniaeth i gadwraeth, addysg a chynaliadwyedd, a mwynhad yr ymwelwr. Darganfyddwch mwy wrth bori'n gwefan https://garddfotaneg.cymru.org.uk/.

Yr ydych yn debygol o gael hanes gyrfa ardderchog wrth ddarparu dyletswyddau cynhaliaeth fanwl ar dirlun allanol ac yn cynorthwyo fel Peiriannwr Mecanyddol fel y mynnir. Yn gweithio mewn cysylltiad gyda'r Uwch Beiriannydd Cynhaliaeth i sicrhau bob pob gofyniad er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu cynnal i'r safonau a ddymunir, yn gweithio ar eich liwt eich hun ac yn cydweithio ag adrannau eraill, i sicrhau'r rhedeg dyddiol esmwyth a ddiogel o fusnes yr Ardd. Mae dawn ac agwedd da cyflawn yn angenrheidiol i'r swydd hon, felly mae yna bosibilrwydd i unigolyn gyda'r potensial cywir cynyddu ei gallu ac i dyfu mewn i'r swydd os ydynt yn ymroddedig yn bersonol i hyfforddiant pellach.

**AMLINELLIAD O FANYLION Y SWYDD**

Yn dechrau o'r dyddiad cynharaf a ellir trefnu, mae hon yn swydd barhaol, ran-amser (56% clla). Disgwylir i'r drefn o weithio fod yn 21 awr (hyblyg) yr wythnos. Y cyflog yw £7.50 yr awr, yn cynyddu yn ôl y newidiadau Cenedlaethol o 01 Ebrill 2017.

Fe wahoddir i chi archwilio'n gwefan i ddysgu mwy am yr Ardd.

Croesawir ymholiadau anffurfiol a dylai'r rhain cael eu danfon i Charlotte Lumby – charlotte.lumby@gardenofwales.org.uk.

**Dylai ceisiadau, fel copi electronig ac mewn ffurf llythyr cais a CV, yn dangos yn glir sut yr ydych chi'n cwrdd â'r meini prawf, cael eu danfon gyda manylion o ddau ganolwr, i Charlotte Lumby – charlotte.lumby@gardenofwales.org.uk erbyn Dydd Gwener 24 o Fawrth 2017.** Disgwylir i gyfweliadau ddigwydd ar **Ddydd Llun 3 o Ebrill 2017.**

**GARDD BOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU**
**NATIONAL BOTANIC GARDEN OF WALES**
**Disgrifiad Swydd**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Cynhaliaeth |
| **Adran** | Gweithrediadau a Chyfleusterau |
| **Yn adrodd i'r** | Rheolwr Gweithrediadau a Chyfleusterau |
| **Yn gyfrifol am** | Neb arall |

**AMLINELLIAD o bwrpas y swydd**

I gyflawni dyletswyddau cynhaliaeth fanwl ar nodweddion tirwedd galed allanol ac yn cynorthwyo fel Peiriannwr Mecanyddol fel y mynnir. Yn gweithio mewn cysylltiad gyda'r Uwch Beiriannydd Cynhaliaeth i sicrhau bob pob gofyniad er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu cynnal i'r safonau a ddymunir, yn gweithio ar eich liwt eich hun ac yn cydweithio ag adrannau eraill, i sicrhau'r rhedeg dyddiol esmwyth a ddiogel o fusnes yr Ardd.

**A. Cyfrifoldebau Cyffredinol**

I gyflawni unrhyw tasgiau cynhaliaeth penodol yn ôl amserlen wrth sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Iechyd a Diogelwch ac i gynnal archwiliadau diogelwch y safle dyddiol cyn i'r Ardd agor a chofnodi'r darganfyddiadau.

**B. Cyfrifoldebau Penodol**

- Cynorthwyo'r paratoad o ddigwyddiadau a chlirio ar eu hôl
- Sicrhau bod y gilfach sbwriel ac ailgylchu mewn trefn a bod pob math o ddeunydd yn y biniau sbwriel cywir
- Sicrhau'r gydymffurfiaeth gyda chyfarpar diogelu personol Iechyd a Diogelwch ac i weithio i'r datganiadau dulliau a gytunwyd
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Iechyd a Diogelwch
- Cwblhau taflenni amser fel y mynnir
- Atgyweiriadau a chynhaliaeth gyffredinol sy'n gallu cynnwys adeiladu sylfaenol, plymwaith a gwaith saer

**C. Dyletswyddau Cyffredinol Eraill**

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill fel y mynnir
- Cyfrannu fel aelod o staff yr Ardd i ddigwyddiadau a gweithgareddau, yn ôl gofyn yr achlysur, darparu cymorth cyffredinol, arweinyddiaeth a goruchwyliaeth, mewn cydweithrediad âr Cyfarwyddwr ac eraill
- Cefnogi a hysbysebu ethos, digwyddiadau ac enw da'r Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Hyrwyddo ac annog yr iaith Gymraeg.

Mae’r disgrifiad yn gosod y dyletswyddau presennol sy’n amrywio o amser i amser yn ôl gofyn cyfeiriad y mudiad.

Efallai gewch eich gofyn i weithio yn adrannau arall fel y mynnir gan y Rheolwr Gweithrediadau a Chyfleusterau, Uwch Beiriannydd Cynhaliaeth, Rheolwr ar Ddyletswydd a’r Cyfarwyddwr.